Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

The Academy of Medical Sciences

# Dogfen Ganllawiau: Cronfa Sbarduno Arloesedd mewn Canser Menywod

## Cyflwyniad

Mae dod ag arbenigedd ac adnoddau at ei gilydd i sbarduno arloesedd i gefnogi'r gwaith o wella iechyd menywod yn flaenoriaeth ledled Cymru, fel y gwelir yn sgil cyhoeddi Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru yn ddiweddar. Mae'r cynllun hwn yn dangos y camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir o fewn 8 maes blaenoriaeth. Tynnir sylw at ffocws ar Ganser mewn tri o'r meysydd blaenoriaeth:

1. Strategaethau atal – atal canser, lle bo'n bosibl
2. Menopos
3. Heneiddio'n dda ac iechyd hirdymor ar hyd cwrs bywyd:
    - Y rhaglen gwella o ganser
    - Gofal Lliniarol/Diwedd Oes
    - Dulliau newydd o ganfod HPV ymhlith merched ifanc

Mae'r Gronfa Sbarduno Arloesedd mewn Canser Menywod yn gynllun cydweithredol rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac Academi'r Gwyddorau Meddygol. Mae'r gronfa wedi'i chynllunio i feithrin cydweithio a darparu cyllid sbarduno hanfodol i helpu sefydliadau i ddatblygu atebion arloesol i wella canlyniadau a phrofiad menywod y mae canser yn effeithio arnynt.

Gwahoddir timau prosiect neu adrannau o sefydliadau sydd wedi cofrestru yn y DU i wneud cais. Gellir defnyddio'r cynllun cyllido hyblyg hwn i gefnogi gweithgareddau gan gynnwys:

- Costau teithio, llety a symudedd i ddod â chydweithrediadau newydd at ei gilydd
- Llogi lleoliadau
- Treuliau ar gyfer cynghorwyr neu gyfranwyr ar gyfer cwmpasu neu gyflawni prosiectau gan gynnwys costau PPI
- Defnyddiau traul a chostau sy'n gysylltiedig â phrosiect i gefnogi cynlluniau parhaus o ran cyflawni
- Hyfforddiant sy'n helpu i gefnogi allbynnau gweithgareddau
- Cost amser staff

Bydd y rhai sy'n derbyn cyllid hefyd yn gallu cael gafael ar gymorth ymarferol, sy'n cael ei ddarparu gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a/neu Academi'r Gwyddorau Meddygol, gan gynnwys:

- **Cymorth cydlynu prosiect:** Cefnogaeth bwrpasol hyd at 1 diwrnod yr wythnos am 3 mis.
- **Asesiad Arloesedd:** Mynediad at asesiad strwythuredig ar gyfer datblygiadau arloesol arfaethedig neu dechnoleg newydd, gan roi adborth adeiladol
- **Arbenigedd Cyllid:** cymorth i ganfod a gwneud cais am alwadau cyllido perthnasol
- **Gwybodaeth am y Sector:** Adroddiadau sganio cyflym ar bynciau arloesi i ddeall gweithgarwch presennol ledled y DU.

- **Cymorth Partneriaethau:** Mynediad at rwydweithiau, cysylltiadau a digwyddiadau i drafod cyfleoedd a heriau
- **Marchnata a Chyfathrebu:** creu astudiaethau achos cydweithredol, mwyhau a galwadau i weithredu.

Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i gyfeirio at y ddogfen ganllawiau hon wrth ddatblygu eu cais a rhoi sylw penodol i gwmpas a meini prawf cymhwysedd y rhaglen.

**Ceisiadau'n agor ar 03/02/2025 ac yn cau ar 21/02/2025.**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at helo@hwbgbcymru.com

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Rhaid cwblhau gweithgarwch y prosiect o fewn 6 mis i ddyfarnu'r arian. **Peidiwch â dechrau ar unrhyw waith prosiect nes eich bod wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig bod eich cais wedi bod yn llwyddiannus. Mae dechrau gwaith cyn bod cytundeb cydweithio wedi'i lofnodi ar waith rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'r sefydliad sy'n elwa yn cael ei wneud ar eich menter eich hun.**

## Cwmpas

Rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd arian a ddyfernir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer:

1. Gweithio mewn partneriaeth, sy'n Draws-Sector, yn amlddisgyblaethol ac yn cynnwys o leiaf un partner yng Nghymru.

   Mae'r sectorau canlynol o fewn cwmpas y gronfa hon:

   - Academia
   - GIG/Gofal Cymdeithasol
   - Nid Er Elw/Corff anllywodraethol/Elusen
   - Y Sector Preifat

2. Gweithgareddau a fydd yn gwella'r canlyniadau a'r profiad i fenywod y mae canser yn effeithio arnynt, sy'n cyd-fynd â pholisïau lleol fel
   a. Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru
   b. Y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gwella o Ganser
   c. Cymru Iachach

3. Gweithgareddau sy'n dangos gwerth am arian, gan gynnwys gallu darparu gwerth cyfatebol o 50%

## Meini Prawf Cymhwysedd

Rhaid i ymgeiswyr:

- Allu dangos bod ganddynt gyfrif banc yn y DU yn enw'r prif sefydliad sy'n gwneud cais.

- Ddim mewn trafferthion ariannol (gallu pasio gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar statws busnes, a gallu datgan nad yw'r busnes a'r ymgeiswyr a enwir yn destun unrhyw ymgyfreitha perthnasol).
- Gallu cadarnhau bod unrhyw yswiriant a chydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol ar waith.
- Cymwys i dderbyn cyllid grant.
- Cytuno i ofynion monitro.
- Gallu cytuno i rannu manylion a chanlyniadau prosiectau lefel uchel yn gyhoeddus.
- Os yw'r derbynnydd arfaethedig yn sefydliad nad yw'n rhan o'r sector cyhoeddus a'r mecanwaith arfaethedig ar gyfer cydymffurfio â Chymhorthdal y DU yw drwy Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA), rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i gael cyllid grant (heb gael £315,000 yn ystod y tair blynedd diwethaf) a darparu datganiad wedi'i lofnodi i gadarnhau.
- Rhaid gallu dangos tystiolaeth o wariant ar weithgareddau'r prosiect a bod y canlyniadau gofynnol wedi'u cyflawni.
- Bydd costau'n codi ar ôl dyddiad y llythyr dyfarnu a chyn dyddiad cau'r prosiect ac yn ymwneud yn benodol â'r prosiect.

## Costau Cymwys

Mae'r grant wedi'i gyfyngu i wariant sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect yn unig. Pan fydd eitemau'n cael eu defnyddio y tu allan i weithgarwch y prosiect, dim ond cyfran o gostau'r eitem honno sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch y prosiect y gallwn ei hariannu. Rhaid i'r costau a ddangosir fodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir isod er mwyn bod yn gymwys i gael taliad.

Mae unrhyw gostau a fyddai fel arfer yn cael eu cyfalafu ar gyfrifon y cwmni yn anghymwys ar gyfer y cyllid hwn. Gweler isod am enghreifftiau o gostau cymwys ac anghymwys.

Dim ond cynnwys TAW os nad yw'n adferadwy gan eich sefydliad. Os nad ydych yn siŵr a yw TAW sy'n ymwneud â'ch gwariant yn adferadwy ai peidio, ceisiwch arweiniad gan eich sefydliad neu gyngor ariannol annibynnol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

| Costau cymwys | Costau anghymwys |
|---|---|
| Costau sy'n ymwneud yn benodol â'r gwaith sydd ei angen ar gyfer y prosiect, gan gynnwys TAW. | Costau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith sydd ei angen ar gyfer y prosiect, gan gynnwys eitemau digwyddiadol a chostau busnes fel arfer. |
| Costau refeniw gan gynnwys amser staff / ymgynghorwyr a nwyddau traul. | Costau cyfalaf (e.e. offer a pheiriannau a fydd yn cael eu cyfalafu yng nghyfrifon y cwmni, neu gostau nad ydynt yn cael eu nodi fel costau refeniw wrth gyfrifo). |

| | |
|---|---|
| Costau refeniw meddalwedd sy'n angenrheidiol i gefnogi'r gweithgaredd arfaethedig. | Costau meddalwedd sy'n wariant cyfalaf mewn cyfrifon a/neu nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau a amlinellir yn y cwmpas. |
| Costau datblygu, gan gynnwys offer hanfodol, i gynhyrchu ased sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgarwch y prosiect. | Unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o esgeulustod ar ran y Derbynnydd, eu cynrychiolwyr, contractwyr neu asiantau eraill. |
| Hyfforddiant sy'n helpu i gefnogi allbynnau gweithgareddau. | |
| Llogi Lleoliadau. | |
| Ceisio arbenigedd Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI). | |

## Y Broses o Wneud Cais

Gall timau prosiect neu adrannau o sefydliadau sydd wedi cofrestru yn y DU wneud cais am grant rhwng £5,000 a £10,000.

Dylai ymgeiswyr lenwi'r Ffurflen Gais sydd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i dychwelyd i helo@hwbgbcymru.com gyda'r wybodaeth ategol ofynnol cyn y dyddiad cau.

Bydd ffurflenni cais yn casglu gwybodaeth gan gynnwys cynlluniau prosiect, profiad perthnasol, costau disgwyliedig a statws Cymhorthdal y sefydliad sy'n ymgeisio. Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu gan banel i asesu sut maent yn bodloni cwmpas a meini prawf y gronfa, a rhoddir sgôr i bennu pwy fydd yn derbyn cyllid.

Ar ôl i geisiadau gael eu hadolygu, bydd ymgeiswyr yn cael llythyr penderfyniad. Bydd hwn yn nodi a ydym wedi derbyn neu wrthod eich cais. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gennych chi os na fydd y panel yn gallu dod i benderfyniad ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gennych chi. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cysylltu â chi i drafod y broses o sefydlu contract grant, hawlio taliadau, monitro a chau grantiau.

Bydd ceisiadau a dderbynnir gan sefydliadau yn y sector preifat yn cael eu hadolygu ar gyfer cydymffurfio ac efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i ofyn am ragor o fanylion os bydd unrhyw wybodaeth wedi ei hepgor o'ch ffurflen gais. Gall hyn arwain at oedi wrth gymeradwyo eich cais. Byddwn yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar y sefydliad sy'n ymgeisio, gan gynnwys archwiliad credyd meddal a'ch cyfrifon diweddaraf sydd ar gael i'r cyhoedd. Os yw'n ymddangos bod y sefydliad sy'n gwneud cais yn wynebu anawsterau ariannol, ni fydd yn bosibl darparu cyllid. Gallwn hefyd wirio unrhyw gyfraddau dyddiol ar gyfer staff i sicrhau eu gwerth am arian.

## Llenwi'r Ffurflen Gais

Mae'r ffurflen gais ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Rhaid llenwi pob adran cyn anfon y ffurflen gyda'r atodiadau perthnasol at helo@hwbgbcymru.com cyn y dyddiad cau. Adrannau glas tywyll yw'r cwestiynau y mae'n rhaid i chi eu hateb. Mae'r adrannau llwyd tywyll yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu. Adrannau gwyn yw'r mannau lle mae'n rhaid i chi roi eich ymatebion. Gwnewch yn siŵr bod pob atodiad ar ffurf PDF.

**Adran 1:** Manylion y Sefydliad. Cwblhewch yn llawn gyda'ch holl fanylion.

**Adran 2: Manylion yr Ymgeisydd Arweiniol.** Rhaid i'r ymgeisydd arweiniol a enwir gael cymeradwyaeth y sefydliad i gyflwyno'r cais. Bydd yn ofynnol i'r Ymgeisydd Arweiniol drefnu llofnodydd sefydliadol awdurdodedig ar gyfer dogfennau sy'n rhwymo mewn cyfraith ar ran y cwmni os bydd yn llwyddiannus.

**Adran 3: Manylion y Gweithgaredd.** Mae angen i ni sicrhau bod eich cais yn cynnwys gweithgareddau o fewn y cwmpas. Rhowch grynodeb o'ch cynlluniau. Dylech gynnwys prif amcanion y cynllun gweithgareddau. Dylai amcanion fod yn Benodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol a Synhwyrol (SMART).

**Adran 4: Cwmpas.** Mae angen i ni sicrhau bod eich cynlluniau'n cyd-fynd yn llwyr â'r cwmpas a'r meini prawf llwyddiant. Rydym eisiau gwybod beth fydd canlyniadau (allbynnau) y prosiect.

**Adran 5: Dull Gweithredu a Chyflawni.** Mae angen i ni ddeall y dull y byddwch yn ei ddefnyddio i gyflawni prosiect llwyddiannus. Cofiwch gynnwys unrhyw fanylion am yr heriau neu'r rhwystrau disgwyliedig. Rhowch fanylion y prif risgiau i'r prosiect. Cofiwch gynnwys unrhyw drwyddedau neu yswiriant yn yr adran hon, ac unrhyw fesurau lliniaru. Mae angen i ni ddeall pwy fydd yn rhan o'r prosiect, a sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni canlyniadau'r prosiect

**Adran 6: Partneriaid Gweithgaredd.** Rhowch fanylion y sefydliadau partner sy'n gweithio gyda chi i gyflawni eich gweithgaredd arfaethedig. Rhestrwch fanylion unrhyw gyfraniadau ariannol neu anariannol ('ymarferol') yr ydych chi neu'r partneriaid yn eu darparu yn ystod y gweithgaredd.

**Adran 7: Costau.** Rhowch amcangyfrif o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r prosiect drwy lenwi'r tabl yn llawn. Dim ond costau refeniw amlwg sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau o fewn y cwmpas sy'n gymwys i gael cyllid grant. **Rhaid atodi dyfynbrisiau:** Mae angen un dyfynbris ar gyfer pob eitem sy'n werth dros £1,999, gyda dau ddyfynbris ar gyfer pob eitem sy'n werth dros £5,000. Os nad ydych wedi dewis y dyfynbris rhataf, rhaid i chi roi cyfiawnhad. Nid oes angen dyfynbrisiau ar gyfer costau staff mewnol, ond rhaid i'r rhain fod ar gyfradd ddyddiol resymol.
Nid yw unrhyw gostau a fydd yn cael eu cyfalafu yng nghyfrifon eich cwmni yn gymwys. Gweler uchod am enghreifftiau o gostau cymwys ac anghymwys.

**Adran 8: Statws Cymhorthdal.** Rhaid i chi lenwi'r datganiad cymhorthdal fel ein bod yn deall y llwybr gorau i ddyfarnu cyllid os bydd eich cais yn llwyddiannus. Gallwn ddyfarnu cyllid dan y Cymorth Ariannol Lleiaf, neu lwybrau cymhorthdal untro. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn gymwys i gael cyllid o dan y llwybr a nodir yn eich llythyr cynnig, os bydd eich cais yn llwyddiannus. Os ydych yn ansicr ynghylch statws cymhorthdal eich cwmni, rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

**Adran 9: Datganiad:** Rhaid i'r adran hon o'r ffurflen gais gael ei llofnodi gan berson sydd wedi'i awdurdodi'n briodol o gwmni'r ymgeisydd. Gallwch gynnwys dau lofnodwr os yw hynny'n briodol i strwythur eich cwmni. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen i ni gyfateb y llofnod ar y ffurflen gais i ddogfennau eraill yn nes ymlaen, felly dylech naill ai roi copi electronig o'ch llofnod gwlyb neu argraffu a llofnodi'r datganiad cyn anfon copi wedi'i sganio atom.

## Y Broses Asesu

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan banel penodedig. Rhoddir sgôr i benderfynu pwy fydd yn cael arian.

Mewn achosion lle mae'r panel o'r farn nad oes digon o wybodaeth yn eich cais, neu lle mae gwiriadau cychwynnol yn dangos bod angen rhagor o wybodaeth, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ddarparu'r wybodaeth hon.

Bydd penderfyniadau'r panel asesu yn cael eu hystyried yn derfynol, gyda Phrif Swyddog Gweithredol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cadw'r hawl i wrthod ariannu ceisiadau lle gallai hyn arwain at niwed i enw da Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a/neu AMS.

- **Meini Prawf Asesu**

Bydd aelodau'r panel yn gwerthuso pob adran o'r ffurflen gais a gyflwynir gan ymgeiswyr yn erbyn y meysydd canlynol (bydd asesiad negyddol yn golygu na ellir bwrw ymlaen â'r cais).

Mae'r matrics asesu fel a ganlyn:

1. Mae'n bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd (Ydy/Nac ydy)
2. Mae'n dangos bod y cais o fewn y cwmpas (Ydy/Nac ydy)
3. Mae'n cynnwys gweithio ar draws sectorau, gan gynnwys rhanddeiliaid o ddau sector gwahanol o leiaf (Ydy/Nac ydy):
    - Academia
    - GIG/Gofal Cymdeithasol
    - Nid Er Elw/Corff anllywodraethol/Elusen
    - Y Sector Preifat

4. Mae'n cynnwys aelodau o dîm amlddisgyblaethol (Ydy/Nac ydy)
5. Mae'n cynnwys cydweithio ag o leiaf un partner yng Nghymru (Ydy/Nac ydy)
6. Mae amcangyfrifon cost yn gymwys, yn briodol, yn rhesymol ac yn gysylltiedig â chwmpas y prosiect yn uniongyrchol (Ydy/Nac ydy)
7. Mae'n dangos y bydd y prosiect yn sefydlu partneriaeth gydweithredol sy'n gweithio tuag at wella canlyniadau i fenywod y mae Canser yn effeithio arnynt (Sgôr 1 –5)
8. Mae'n dangos bod y gweithgaredd yn profi gwerth am arian (Sgôr 1-5)
9. Mae Aelodau Tîm y Prosiect sydd â'r sgiliau angenrheidiol yn eu lle, yn ymroddedig ac yn briodol (Sgôr 1-5)

**Y Broses Ddyfarnu**

Bydd penderfyniad y panel asesu yn cael ei gyfleu i ymgeiswyr drwy lythyr swyddogol.

Ni fydd yn bosibl talu cyllid grant i ymgeiswyr llwyddiannus nes bydd cytundeb cydweithio (contract) ar waith ar gyfer y gwaith.

**Rhaid i chi beidio â dechrau unrhyw waith ar y prosiect nes i ni gadarnhau'n ysgrifenedig eich bod yn gallu gwneud hynny. Os byddwch yn dechrau ar waith cyn bod cytundeb cydweithio wedi'i lofnodi rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a sefydliad y buddiolwr, byddwch yn gwneud hynny ar eich menter eich hun.**

- **Cytundebau Cydweithio (Contractau)**

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn llofnodi cytundeb cydweithio sy'n nodi telerau ac amodau'r grant, gan gynnwys:

- Y swm i'w ddyfarnu
- Terfynau amser ar gyfer gwario'r arian
- Gofynion monitro a manylion sut y mesurir llwyddiant.

**Bydd llofnodi cytundeb cydweithio yn hanfodol ar gyfer unrhyw daliadau y cytunwyd arnynt.**

- **Cais am daliad**

Yn dilyn llofnodi cytundebau cydweithio, gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus lenwi a dychwelyd y ffurflen hon i wneud cais am daliad a'i brosesu. Bydd cyfanswm y dyfarniad yn cael ei dalu i'r Sefydliad Arweiniol.

## Monitro

Bydd gofyn i'r rhai sy'n derbyn arian wneud y canlynol:

1. Darparu cynllun prosiect (fel rhan o gytundeb cydweithio)
2. Darparu adroddiad terfynol, sy'n dangos canlyniadau ac effaith defnyddio'r arian a ddyfarnwyd

**Gallai methu â darparu adroddiad digonol arwain at adennill yr arian a ddyfarnwyd.**